Rhif: WG35221

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55

Dyddiad cyhoeddi: 04 Mehefin 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Awst 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i arddangos yr opsiynau arfaethedig i wneud gwelliannau yng nghyffyrdd 15 ac 16 yr A55.
Sut i ymateb	Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol yr hoffai Llywodraeth Cymru ichi ymateb iddynt. Croesewir ymatebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg a dylid eu hanfon drwy e-bost neu'r post erbyn 28 Awst 2018 fan bellaf. Cewch ymateb drwy un o'r ffyrdd canlynol. Ar-lein: https://beta.llyw.cymru/gwelliannau-cyffyrdd-15-16-A55 E-bost: Llenwch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy e-bost i YmgynghoriadA55Cyffyrdd15ac16@llyw.cymru Post: Llenwch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon drwy'r post i: Gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 RHADPOST Llywodraeth Cymru Sarn Mynach Cyffordd Llandudno Conwy LL31 9RZ
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Swyddog Cyswllt y Cyhoedd

E-bost: A55J15J16@ramboll.com

Rhif ffôn: 07806 737353

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55


A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS






Dydd Mawrth 12 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Neuadd Plwyf Sant Gwynin, Ffordd Ysguborwen, Dwygyfylchi LL34 6TR

Tuesday 12 June (10am - 8pm)
St Gwynin's Parish Hall, Ysguborwen Road, Dwygyfylchi, LL34 6TR



Dydd Mercher, 13 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd Conwy, Penmaenmawr, LL34 6AB

Wednesday 13 June (10am - 8pm)
Penmaenmawr Community Centre, Conway Road, Penmaenmawr, LL34 6AB



Dydd Iau, 14 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Canolfan Gymunedol Llanfairfechan, Village Rd, Llanfairfechan, LL33 0NH

Thursday 14 June (10am - 8pm)
Llanfairfechan Community Centre, Village Rd, Llanfairfechan, LL33 0NH

LLYSOEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Arddangosfa Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WelTAG

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i arddangos yr opsiynau arfaethedig i wneud gwelliannau yng nghyffyrdd 15 ac 16 yr A55. Mae'n ddilyniant i'r Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017, a ddisgrifiodd yr astudiaethau a gynhaliwyd i ymchwilio i'r opsiynau posib ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16.

Mae Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WelTAG yn rhedeg o 4 Mehefin i 28 Awst 2018. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio sut allwch chi gymryd rhan. Mae hefyd yn darparu:

- Manylion yr Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus (ar y clawr blaen);
- Manylion y weithdrefn sydd wedi'i dilyn ar gyfer gwerthuso'r opsiynau sy'n cael eu cyflwyno;
- Gwybodaeth ar sut allwch chi gyflwyno eich barn i ni; a
- Gwybodaeth ynghylch beth fydd yn digwydd unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori ar ben.

Bydd aelodau tîm y prosiect yn bresennol yn yr arddangosfeydd a byddant yn hapus i'ch cynorthwyo ag unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch y wybodaeth a gyflwynir. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol, gallwch wneud ymholiadau drwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar e-bost A55J15J16@ramboll.com.

Diben y prosiect

Cyffyrdd 15 a 16 ar yr A55 yw'r unig ddwy gylchfan ar Rwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd E22 (TEN-T). Mae hyn yn achosi problemau i'r traffig sy'n defnyddio'r A55 sy'n teithio ar hyd y llwybr.

Diben y prosiect hwn yw cael gwared ar y ddwy gylchfan ar gyffyrdd 15 ac 16 yr A55, a'u hamnewid gyda chyffyrdd uwchradd. Bydd y cyffyrdd newydd yn golygu na fydd angen i draffig arafu wrth y cylchfannau, gan leihau oedi. Drwy gael gwared ar y cylchfannau, bydd y cyffyrdd yn fwy diogel i draffig sy'n teithio ar hyd yr A55, ac i bobl sy'n dymuno ymuno neu ymadael â'r A55 yn y lleoliadau hyn. Bydd y prosiect hefyd yn ymdrin â nifer o nodweddion is-safonol ar y gefnffordd gerllaw'r cyffyrdd hyn.

Amcan allweddol y cynllun yw gwella mynediad i farchnadoedd a chyfleoedd gwaith rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; yn ogystal â gwella gwytnwch a diogelwch, a lleihau oedi i draffig lleol ynghyd â phobl sy'n teithio ar hyd yr A55. Gweler drosodd fanylion pellach ynghylch amcanion y prosiect.

Cymraeg

A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS

WelTAG Stage 2 Public Consultation exhibition

This consultation is being held to showcase the proposed options for the improvements at A55 junctions 15 and 16. It follows on from the Public Information Exhibitions that were held in December 2017, which described the studies that had been carried to investigate potential options for junctions 15 and 16.

The WelTAG Stage 2 Public Consultation runs from the 4 June to 28 August 2018. This consultation document describes how you can take part. It also provides:

- Details of the Public Consultation Exhibitions (on the front cover);
- Details of the procedure that has been followed for the appraisal of the options that are being presented;
- Information on how you can give us your views; and
- Information regarding what will happen once the consultation period is over.

Members of the project team will be in attendance at the exhibitions and will be happy to assist you with any queries that you may have about the information presented. If you are unable to attend in person, queries can be made by contacting the Public Liaison officer by email A55J15J16@ramboll.com.

Purpose of the project

The A55 junctions 15 and 16 are the only two roundabouts on the Euroroute E22 Trans-European Transport Network (TEN-T). This causes problems to the traffic using the A55 travelling along the route.


The purpose of the project is to remove the two roundabouts at A55 junctions 15 and 16, and replace them with upgraded junctions. The new junctions will mean that traffic will not need to slow down at the roundabouts, reducing delays. The removal of the roundabouts will also make the junctions safer both to traffic travelling along the A55, and for people wishing to enter and leave the A55 in these locations. The project will also address a number of substandard features of the trunk road in the vicinity of the junctions.

The key objective for the scheme is to improve access to regional, national and international markets and employment opportunities; in addition to improving resilience and safety, and reducing delays both to local traffic as well as for people travelling along the A55. Further detail regarding the project objectives can be found overleaf.

Y GWEITHDREFNAU I'W DILYN

Mae cynllun gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 wedi'i asesu gan ddefnyddio gweithdrefn Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru ('WelTAG') 2017. Cyflwynir canlyniadau'r arfarniad hwn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn

Prif ddiben WelTAG yw adnabod y cynllun mwyaf buddiol a chaniatáu i gynlluniau gael eu cymharu ar sail cyfatebol. Mae'n cyflawni hyn drwy ddarparu fframwaith i ystyried newidiadau arfaethedig i'r system trafnidiaeth. Yn benodol, mae'r weithdrefn yn ystyried y manteision i'r gymuned, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd a saith 'nod llesiant' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.



Mae tri phrif gam i'r Broses WelTAG:

- Cam 1 WelTAG: Achos Amlinellol Strategol
- Cam 2 WelTAG: Achos Busnes Amlinellol
- Cam 3 WelTAG: Achos Amlinellol Busnes Llawn

Ar hyn o bryd, rydym ar Gam Ymgynghoriad Cyhoeddus o fewn Cam 2 WelTAG.

Yn ystod Cam 1 WelTAG

Tynnwyd sylw at Achos Amlinellol Strategol, materion a phroblemau, a datblygwyd rhestr faith o ddatrysiadau posib. O'r rhain, cyflwynwyd y pum opsiwn oedd yn perfformio orau ar gyfer pob cyffordd a oedd wedi'u cyflwyno mewn astudiaethau blaenorol yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017. Dymunwn ddiolch i bawb a fynychodd yr arddangosfeydd hyn ac i bawb a gyflwynodd eu barn. Rydym wedi gwrando ar eich barn ac wedi ystyried hynny wrth ddiweddaru amcanion y prosiect a'r rhestr fer o opsiynau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.


Yn ystod Cam 2 WelTAG

Achos Busnes Amlinellol, mae'r opsiynau'n cael eu harchwilio mewn mwy o fanylder gyda'r nod o fireinio'r rhestr dan ystyriaeth. Mae'r asesiad WelTAG yn cynnwys asesiad o unrhyw effeithiau posib a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol a diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WelTAG hwn yn gymorth i hysbysu'r penderfyniad ynghylch yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio cyn y datblygir yr achos busnes llawn yng Ngham 3 WelTAG.

PROCEDURES TO BE FOLLOWED

The A55 Junction 15 & 16 Improvements scheme has been assessed using the Welsh Transport Planning Appraisal Guidance ('WelTAG') 2017 procedure. The results of this appraisal are presented as part of this consultation.

The primary purpose of WelTAG is to identify the most beneficial scheme and to allow the comparison of schemes on a like-for-like basis. It achieves this by providing a framework for thinking about proposed changes to the transport system. In particular the procedure considers benefits to the community, in addition to giving consideration to sustainability and the seven 'well-being goals' of the Well-being of Future Generations Act 2015.



There are three main stages of the WelTAG Process:

- WelTAG Stage 1: Strategic Outline Case
- WelTAG Stage 2: Outline Business Case
- WelTAG Stage 3: Full Business Outline Case

We are currently at the Public Consultation Stage within the WelTAG Stage 2

During WelTAG Stage 1

Strategic Outline Case, issues and problems were identified, and a wide list of potential solutions were developed. Of these, the five best performing options for each junction which had been put forward in previous studies were presented in the Public Information Exhibitions held in December 2017. We would like to thank everyone who attended these exhibitions and who provided us with their views. We have listened to your opinions and have taken them into consideration when updating the project objectives and the short-list of options which is being presented as part of this consultation.

During WelTAG Stage 2

Outline Business Case, the options are examined in greater detail with the aim of refining the list under consideration. The WelTAG assessment includes an assessment of any potential impacts and constraints associated with the options, including social and cultural, environmental and economic impacts. The information that you provide during this WelTAG Stage 2 public consultation will help inform the decision regarding the preferred option before the full business case is developed at WelTAG Stage 3.

TROSOLWG O'R OPSIYNAU

Yn dilyn yr Arddangosfa Gwybodaeth Gyhoeddus, adolygwyd amcanion y prosiect ac fe'i diweddarwyd er mwyn ystyried yr ymateb a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, i sicrhau y materion megis y rhai oedd yn gysylltiedig â llesiant pobl a'r effaith hirdymor (weledol) ar y tirwedd a'r trefwedd.

Rhestrir isod amcanion y prosiect, sydd wedi'u diweddaru:

OBJ1 Gwella mynediad i farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad i gyfleoedd gwaith

OBJ2 Gwella diogelwch ffordd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A

OBJ3 Gwella amseroedd siwrne a dibynadwyedd amseroedd siwrne ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A

OBJ4 Gwella gwytnwch ar yr A55 i draffig strategol a lleol

OBJ5 Gwella amseroedd siwrne, dibynadwyedd amseroedd siwrne a diogelwch ar gyfer mynediad ar yr A55

OBJ6 Lleihau datgysylltiad ag ardaloedd arfordirol ar gyfer Defnyddwyr Di-fodur a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr

OBJ7 Cymryd camau rhesymol i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau

OBJ8 Cyfleoedd i ddarparu trafnidiaeth integredig yn cynyddu

Lle'n ddichonadwy, mae datrysiadau wedi eu datblygu i ddarparu symudiad pedair-ffordd. Gellir gyflawni hyn trwy naill ai ddarparu pont dros yr A55 neu drwy godi'r A55 ar arglawdd a darparu twnnel o danodd. Fodd bynnag, yn sgil cyfyngiadau tynn, nid yw'n bosibl darparu symudiadau pedair-ffordd ar gyfer yr holl opsiynau.

Mae pob opsiwn wedi'i asesu'n ansoddol yn erbyn meini prawf WelTAG fel bo modd cymharu'r effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r opsiynau wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf technegol gyda'r nod o:

- Wella cydymffurfiaeth â'r safonau dylunio (i wella diogelwch);
- Gostwng yr angen i leihau cyfyngiadau cyflymder ar hyd yr A55 (i leihau oedi);
- Lleihau aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu (i drigolion a busnesau lleol, ac ar hyd yr A55 ei hun).

Gweler crynodeb o'r asesiad hwn yn Nhabl Crynhoi Arfarniad Cam 2 WelTAG.

AN OVERVIEW OF THE OPTIONS

Following the Public Information Exhibition, the project objectives were reviewed and updated to take into account feedback from the consultation, to ensure issues such as those associated with people's well-being and the long term (visual) impact on the landscape and townscape were captured.

The updated project objectives are listed below:

OBJ1 Improve access to regional, national and international markets and improve access to employment opportunities

OBJ2 Improve road safety on the A55 from Junction 14 to Junction 16A

OBJ3 Improve journey times and journey time reliability on the A55 from Junction 14 to Junction 16A

OBJ4 Improve resilience on the A55 for strategic and local traffic

OBJ5 Improve journey times, journey time reliability and safety for access onto the A55

OBJ6 Reduce severance with coastal areas for the Non-Motorised Users and enhance provision made for walkers and cyclists

OBJ7 To take reasonable steps to build healthier communities and better environments

OBJ8 Opportunities to provide integrated transport are increased


Where feasible, solutions have been developed to provide four-way movements. This can be achieved by either providing a bridge over the A55 or elevating the A55 on embankments and providing a tunnel underneath. However due to space constraints, providing four-way traffic movements is not possible for all of the options.


Each option has been assessed qualitatively against the WelTAG criteria to allow the economic, environmental and social impacts to be compared. The options have also been assessed against technical criteria with the aim of:

- Improving compliance with design standards (to improve safety);
- Minimising the need to reduce speed limits along the A55 (to reduce delays);
- Minimising disruption during construction (to local residents and businesses, as well as along the A55 itself).

A summary of this assessment can be found on the WelTAG Stage 2 Appraisal Summary Table.

CYFYNGIADAU AMGYLCHEDDOL AR GYFER CYFFYRDD 15 AC 16
ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS FOR JUNCTIONS 15 & 16





***Eglurhad* / Key:**

Cadwraeth a bywyd gwyllt / Conservation and wildlife

- *Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbenning* Site of Special Scientific Interest *1
- *Ardal Cadwraeth Arbenning* Special Area of Conservation *1
- *Ardal Gwarchodaeth Arbenning* Special Protection Area *1
- *Gwarchodfa Natur Cenedlaethol* National Nature Reserve *1
- *Gwarchodfa Natur Leol* Local Nature Reserve *1
- *Coetir Hanesyddol* Ancient Woodland *1

Tirwedd a threftadaeth / Landscape and heritage

- *Ffin Parc Cenedlaethol Eryri* Snowdonia National Park Boundary *1
- *Parc a Gardd Hanesyddol* Historic Park and Garden *2
- *Tirwedd Hanesyddol* Historic Landscape *2
- *Heneb Cofrestredig* Scheduled Monument *2
- *Ardal Cadwraeth* Conservation Area *2
- *Adeilad Rhestredig* Listed Building *2

Cymunedau a defnydd o dir Communities and land use

- *Llwybr troed strategol* Strategic footpath *3
- *Llwybr Beicio Cenedlaethol* National Cycle Route *4

Atgynyrchwyd y gwybodaeth gyda chaniatad:
Source data reproduced with permission of:

*1 *Cyfoeth Naturiol Cymru* / Natural Resources Wales
*2 Cadw
*3 Long Distance Walkers Association
*4 Sustrans

Nodir manylion ynghylch y cyfyngiadau amgylcheddol allweddol sy'n dylanwadu ar y datrysiadau ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16 ac fe'u dengys ar y cynllun cyfyngiadau amgylcheddol. Darperir gwybodaeth bellach ynghylch sut allai'r opsiynau effeithio ar yr amgylchedd.

Y gymuned a defnydd tir
- Llwybrau strategol, e.e. Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000
- Cyfleusterau gwasanaethau cymunedol
- Effeithiau traffig ar gymunedau lleol
- Hygyrchedd i'r rhwydwaith ffyrdd

Y Dirwedd, y Drefwedd a Threftadaeth
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Mae Ardaloedd Cadwraeth yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd eraill ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan
- Mae Heneb Gofrestredig (Cylchoedd cytiau ger Wern Newydd i'r de o'r A55)
- 12 Adeilad Rhestredig o fewn 500 metr i'r cyffyrdd
- Parciau a Gerddi Cofrestredig Wern Isaf a Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan
- Tirwedd Hanesyddol Rhestredig (RHL) Gogledd Arllechwedd, yn ymdrin â'r ddwy gyffordd; a thri RHL arall
- Mae Cynllun Datblygu Unedol Sir Conwy yn dynodi Ardal Gwerth y Dirwedd a Pharth Arfordirol

Cadwraeth a Bywyd Gwyllt
- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai a Bae Conwy i'r gogledd
- ACA Coedydd Aber, SoDdGA a Gwarchodfa Natur Cenedlaethol (NNR), i'r de
- ACA Eryri a SoDdGA Eryri tua'r de
- Ardal Gwarchod Arbennig (SPA) Bae Lerpwl tua'r gogledd
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Traeth Lafan a Gwarchodfa Natur Leol (LNR) tua'r gogledd
- SoDdGA Bwlch Sychnant i'r de o Gyffordd 16
- SoDdGA Cadnant
- SoDdGA Coed Benarth
- SoDdGA Aber Afon Conwy, 6.22km i'r dwyrain
- SoDdGA Chwareli a Glaswelltir Deganwy tua'r dwyrain

The key environmental constraints identified as influencing the solutions for junctions 15 & 16 are detailed below and shown on the environmental constraints plan. Further information regarding how the options might affect the environment is provided.

Community and land use
- Strategic footpaths e.g. the Wales Coastal Path and Route 5 National Cycle Network and areas designated as the Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW) Access Land
- Community services facilities
- The effects of traffic on local communities
- Accessibility to the road network

Landscape, townscape and Heritage
- Snowdonia National Park
- There are Conservation Areas in the town centres and in other areas in Penmaenmawr and Llanfairfechan.
- There is a Scheduled Ancient Monument (Hut circles near Wern Newydd south of the A55)
- 12 Listed Buildings within 500 metres of the junctions
- Wern Isaf and Bryn-y-Neuadd Registered Parks and Gardens in Llanfairfechan
- North Arllechwedd Registered Historic Landscape (RHL), covering both junctions; and three other RHL
- Conwy County Unitary Development Plan designates a Landscape Value Area and a Coastal Zone

Conservation and Wildlife
- Menai Strait and Conwy Bay Special Area of Conservation (SAC) to the north
- Coedydd Aber SAC, SSSI and National Nature Reserve (NNR), to the south
- Snowdonia SAC and Eryri SSSI to the south
- Liverpool Bay Special Protection Area (SPA) to the north
- Traeth Lafan Site of Special Scientific Interest (SSSI) and Local Nature Reserve (LNR) to the north
- Sychnant Pass SSSI to the south of J16
- Cadnant SSSI
- Benarth Wood SSSI,
- Aber Afon Conwy SSSI, 6.22km the east
- Deganwy Quarries and Grassland SSSI to the east

DISGRIFIAD O'R CYFYNGIADAU AMGYLCHEDDOL

Sŵn
Os rhagwelir cynnydd sylweddol mewn sŵn traffig, mae'n debyg y byddai mesurau lleihau sŵn ar ymyl y ffordd yn cael eu hymgorffori. Byddai'r gwelliannau yn y ddwy gyffordd yn arwain at draffig yn teithio ar gyflymder uwch, ac fel arfer, mae hyn yn arwain at gynnydd mewn sŵn traffig ar y ffordd. Efallai y gellir gwrthbwyso hyn drwy ddefnyddio deunydd wynebu sŵn isel, llai o sŵn gan nad oes angen i gerbydau mawr gyflymu, a chael gwared ar y stribedi rymblan. Pan fo'r gwelliannau arfaethedig yn rhoi llai na mynediad llawn i'r A55 gall traffig lleol ychwanegol sydd ar y ffordd wyro ar ffyrdd lleol neu ffyrdd cyswllt newydd, gan greu sŵn traffig ger ardaloedd preswyl.

Ansawdd Aer Lleol
Mae cerbydau sy'n defnyddio'r cylchfannau yn arafu, yn brecio ac yna'n cyflymu'n sydyn ac mewn cyfnodau prysur mae ciwiau'n datblygu ac injans yn mynd yn segur. Gall yr amodau hyn arwain at fwy o lygredd, ond mae'r lleoliad arfordirol agored yn sicrhau symudiad rhydd aer er mwyn gwasgaru'r allyriadau yn rhwydd. Byddai cael gwared ar y cylchfannau yn hwyluso llif rhwydd traffig ar gyflymderau uwch. Nid oes yr un o'r opsiynau hyn yn cael eu hystyried yn debygol o fod yn fwy na'r safonau cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer mewn eiddo preswyl. Byddai nitrogen deuocsid (NO_2) a deunydd gronynnol (PM_{10}) yn parhau'n llawer is na'r safonau cenedlaethol.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr
Yn y byrdymor, byddai'r holl opsiynau yn arwain at allyriadau tebyg o gerbydau i'r hyn sy'n digwydd yn barod. Fodd bynnag, byddai'r traffig sy'n llifo'n rhwydd yn cynhyrchu llai o Garbon Deuocsid (CO_2) o geir, ond allyriadau CO_2 fymryn uwch o gerbydau eraill, megis cerbydau HGV.

Y Dirwedd, Y Drefwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol
Byddai'r holl opsiynau yn newid y dirwedd a'r golygfeydd i'r môr ac o ardaloedd preswyl, mannau cyhoeddus a'r bryniau o amgylch. Mae'r cyffyrdd presennol yn cael effaith andwyol ar olygfeydd o eiddo sy'n goredrych yn barod. Byddai opsiynau sy'n gofyn am bontydd a slipffyrdd uchel yn fwy gweledol, yn enwedig o eiddo preswyl sydd â golygfa dros yr A55 ar hyn o bryd. Mae sawl dynodiad treftadaeth a allai gael ei effeithio'n andwyol gan newidiadau i'r lleoliad. Gellir Ardal Cadwraeth Llanfairfechan gael ei amharu'n uniongyrchol gan welliannau Cyffordd (C) 15. O ran eiddo gerllaw'r gylchfan gyfredol yng C15, bydd slipffyrdd uchel yn pasio yn agos atynt mewn rhai opsiynau. Ar gyfer Opsiwn B C15, sy'n cynnwys linc i'r Promenâd, efallai y ceir effaith niweidiol ar olygfeydd o'r ardaloedd preswyl a'r lle agored cyhoeddus i'r gogledd o'r rheilffordd. Gellir Opsiwn A C16 gael effaith ar olygfeydd gan y byddai'n symud y gyffordd a'r bont a'r slipffyrdd cysylltiedig tua'r dwyrain gyda rhannau newydd o ffyrdd lleol yn rhedeg drwy gaeau i'r gogledd o Ddwygyfylchi.

Bioamrywiaeth
Gwyddys bod rhywogaethau adar sy'n gaeafu, sy'n nodweddion cymwys yr AGA, y bioden fôr a rhywogaethau hirgoes eraill, yn chwilota ar lanw uchel ar dir pori gyferbyn â'r ddwy gyffordd. Gallai gwaith adeiladu yn ystod y gaeaf arwain at aflonyddu ar yr adar hyn a cholli cynefin chwilio dros dro. Gallai'r holl opsiynau aflonyddu ar gynefin ar ymyl yr A55, neu ei ddinistrio, ond ni fydd yr un yn cymryd cynefin o fewn ACA/AGA dynodedig sydd o bwys rhyngwladol, na'r SoDdGA sydd o bwys cenedlaethol. Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y cynefinoedd sy'n cefnogi Rhywogaethau Gwarchodedig, megis ystlumod ac ymlusgiaid, yn cael eu heffeithio. Byddai cael cynefin yn ei le, drwy blannu coed a phrysglwyni o amgylch y cyffyrdd newydd, er enghraifft, yn lliniaru yn erbyn unrhyw golled ac mae'n bosib y gallai ddarparu ychwanegiadau a allai annog mwy o fioamrywiaeth.

Yr Amgylchedd Dŵr
Mae dŵr wyneb o'r ddwy gyffordd yn pasio drwy ddraeniad y briffordd ac yn arllwys i fewn i'r môr. Gallai newidiadau i'r cyffyrdd, a'r gwaith adeiladu, arwain at newidiadau i faint o ddŵr sy'n cael ei arllwys. Gallai newidiadau i'r draenio effeithio ar y risg o orlifo, yn enwedig mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn barod. Pan ragwelir effaith arwyddocaol ar ansawdd dŵr arfordirol, fe ymgorfforir mesurau i leihau'r effaith. Ni ystyrir bod cronfeydd dŵr daear lleol mewn perygl yn sgil y gwelliannau arfaethedig. Fodd bynnag, rheolir gweithrediadau adeiladu i leihau'r risg o ddifrod i ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.

Priddoedd a Daeareg
Byddai nifer o'r opsiynau ar y gyffordd yn cynnwys gwaith mewn ardaloedd pan allai defnyddiau blaenorol fod wedi halogi'r ddaear, a gallai gwaith adeiladu aflonyddu ar hynny. Gallai dyluniad y gwelliannau a trefniad y gwaith adeiladu leihau'r perygl o aflonyddu yr ardaloedd o'r fath yma, a lle y daw ar draws tir halogedig y bydd yn cael ei drin.

Effeithiau Cymunedol
Mae Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi yn agos i'r cyffyrdd ac yn darparu gwasanaethau cymunedol pwysig. Er y gallai traffig brofi oedi yn ystod y gwaith o adeiladu'r gwelliannau, ystyrir na fydd y gwasanaethau hyn yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y bydd y camau lliniaru arfaethedig (megis rheolaeth traffig) yn lleihau'r oedi. Mae'n debygol na fydd y gwelliannau a gwblheir i'r cyffyrdd yn cael unrhyw effaith andwyol ar fynediad i gyfleusterau lleol. Yn lle hynny, fe allant wella cyflymder mynediad i'r cyfleusterau sy'n bwysicach yn rhanbarthol, megis ysbytai.

DESCRIPTION OF ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS

Noise
Should a significant increase in traffic noise be predicted, it is anticipated that roadside noise reduction measures would be incorporated. The improvements of both junctions would result in increased traffic speed, which would normally mean an increase in road traffic noise. This may be offset by the use of low noise surfacing, reduced noise due to large vehicles not needing to accelerate, and the removal of the rumble strips. Where the proposed improvements provide less than full access to the A55 additional local road traffic may divert onto local roads or new link roads, generating traffic noise close to residential areas.

Local Air Quality
Vehicles using the roundabouts decelerate, brake and accelerate away rapidly and in busy periods queues develop with engines idling. These conditions can result in increased pollution, but the open coastal setting ensures free-movement of air to readily disperse emissions. Removing the roundabout would facilitate free-flowing traffic at greater speeds. Currently air quality meets national standards and none of the options are considered likely to exceed these at residential properties. Nitrogen dioxide (NO_2) and particulates (PM_{10}) would remain well below the national standards.

Greenhouse Gas Emissions
In the short term all options would result in similar vehicle emissions to the existing situation. However, the free-flowing traffic would produce reduced Carbon Dioxide (CO_2) from cars, but slightly higher CO_2 emissions from other vehicles, such as HGVs.

Landscape, Townscape and Historic Environment
All options would change the landscape and views to the sea and from residential areas, public places and the surrounding hills. The existing junctions already have an adverse effect on views from overlooking properties. Options requiring elevated bridges and slip roads would be more visible, particularly from residential properties that currently have a view over the existing A55. There are several heritage designations which could be adversely affected by changes to setting. The Llanfairfechan Conservation Area could be directly affected by Junction (J) 15 improvements. Properties close to the existing roundabout at J15, under some of the options will have elevated slip roads passing close to them. For J15 Option B, which includes a link to the Promenade, there may be adverse effects on views from residential areas and public open space north of the railway. J16 Option A could have an impact on views because it would move the junction and the associated bridge and slip-roads eastwards with new lengths of local roads through field north of Dwygyfylchi. J16 Option B, would be more visible from the western side of Dwygyfylchi as it requires elevated bridges and slip roads.


Biodiversity
Wintering bird species which are qualifying features of the SPA, oystercatchers and other wading species, are known to forage at high tide within pastureland adjacent to both junctions. Construction works during the winter may result in disturbance to these birds and temporary loss of foraging habitat. All options could disturb or destroy habitat alongside the A55, but none will take habitat within the designated internationally important SACs/SPAs or nationally important SSSIs. Habitats that would be affected are considered unlikely to support Protected Species, such as bats and reptiles. Replacement habitat, such as tree and shrub planting around the new junctions would mitigate for any loss and could provide enhancements that might encourage increased biodiversity.


Water Environment
Surface water from both junctions passes through highway drainage and discharges into the sea. Changes to the junctions, and construction works, could result in changes to the quantity of water discharged. Changes to drainage could affect the risk of flooding, particularly in areas already at risk of flooding. Where a significant impact on coastal water quality is predicted, measures to reduce the impact will be incorporated. Local ground water reserves are not considered to be at risk from the proposed improvements. However, construction operations will be managed to reduce the risk of damage to surface and groundwater quality.

Soils and Geology
A number of the junction options would involve works in areas where previous uses of the land may have left ground contamination, which could be disturbed by construction. The design of improvements and planning of the construction work could reduce the risk of harassment of such areas and where contaminated land is encountered it will be treated.

Community Effects
Llanfairfechan, Penmaenmawr and Dwygyfylchi lie close to the junctions and provide important community services. Although traffic delays might occur during construction of the improvements, these services are considered unlikely to be adversely affected as proposed mitigation (such as traffic management) will minimise delays. The completed improvements to the junctions are likely to have no adverse impact on access to local facilities. Instead they could improve the speed of access to more regionally important facilities such as hospitals.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN A
A55 JUNCTION 15 - OPTION A





Cyffordd 15 - Opsiwn A

O'r holl opsiynau sy'n cael eu cynnig yng nghyffordd 15, yr opsiwn hwn sydd â'r ôl-troed lleiaf a hwn fyddai'n cael yr effaith uniongyrchol leiaf ar y tir o amgylch. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn ond yn caniatáu ar gyfer symudiad ddwy-ffordd, gan ddarparu slipffyrdd i wasanaethu'r traffig sy'n teithio tua'r gorllewin. Byddai angen i draffig sy'n teithio tua'r dwyrain fynd ar yr A55 a'i gadael yng nghyffordd 14. I wneud lle ar gyfer y cynnydd mewn llif traffig cysylltiedig, bwriedir gwneud mân welliannau i gyffordd 14.

Bwriedir darparu un llwybr seiclo/cerddwyr er mwyn parhad. Ni ddisgwylir i hyn effeithio ar yr safleoedd bws presennol.


Junction 15 - Option A

Of all the options being proposed at junction 15, this option has the smallest footprint and would have the least immediate impact on the surrounding land. However, the option only allows two-way movement, providing slip roads serving westbound traffic. Eastbound traffic would need to enter and exit the A55 at junction 14. To accommodate the associated increased traffic flows, it is proposed that minor improvements will be made to junction 14.

It is proposed that a shared cycleway / pedestrian path would be provided to maintain continuity. It is expected that the existing bus-stops will not be affected.

CYFAN 15 - OPSIWN B
JUNCTION 15 - OPTION B






Cyffordd 15 - Opsiwn B
Mae'r opsiwn hwn yn darparu symudiad pedair-ffordd drwy ddefnyddio trosbont. Byddai'r slipffyrdd yn cael eu codi'n uwch yn lleol er mwyn i'r bont basio dros yr A55 a'r rheilffordd. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ail-alinio Ffordd Penmaenmawr ac yn sgil hynny, ail-leoli'r safleoedd bws.


Yn ogystal â darparu mynediad i'r Parêd ar gyfer cerbydau mwy, bwriedir cadw'r fynedfa ar gyfer Defnyddwyr di-Fodur drwy Shore Road East. Yn ogystal, bwriedir cael un llwybr seiclo/cerddwyr er mwyn parhad.

Junction 15 - Option B
This option provides four-way movement by utilising an overbridge. The slip roads would be raised locally to allow the bridge to pass over the A55 and railway. This option would require the realignment of Penmaenmawr Road and consequently the repositioning of the bus stops.

In addition to providing access to the Parade for larger vehicles, it is proposed that access would be retained for Non-Motorised Users via Shore Road East. It is also proposed that there will be a shared cycleway / pedestrian path to maintain continuity.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN C
A55 JUNCTION 15 - OPTION C





Cyffordd 15 - Opsiwn C

Mae'r opsiwn hwn yn darparu symudiad ddwy-ffordd gyda slipffyrdd yn arwain ar yr A55 ac oddi arni ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac o'r dwyrain. Byddai angen gwyro traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac o'r gorllewin i gyffordd 14. I wneud lle ar gyfer y cynnydd mewn llif traffig cysylltiedig, bwriedir gwneud gwelliannau i gyffordd 14. Byddai mynediad i'r Parêd drwy Shore Road East yn cael ei gadw ar gyfer traffig lleol. Dyma'r opsiwn fyddai'n cymryd y mwyaf o amser i'w adeiladu ac yn achosi'r aflonyddwch mwyaf yn ystod y gwaith adeiladu.


Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ail-alinio Ffordd Penmaenmawr ac yn sgil hynny, ail-leoli'r safleoedd bws. Nid oes cynnig ar gyfer un llwybr seiclo/troed yn yr opsiwn hwn.


Junction 15 - Option C

This option provides two-way movement, with slip roads on and off the A55 for traffic travelling towards and from the east. Traffic travelling to and from the west would need to be diverted to junction 14. To accommodate the associated increased traffic flows, it is proposed that improvements will be made to junction 14. Access to the Parade via Shore Road East would be retained for local traffic. This option would take the longest to construct and cause maximum disruption during construction.

This option would require the realignment of Penmaenmawr Road and consequently the repositioning of the bus stops. There is no proposal for a shared cycleway / footpath for this option.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN D
A55 JUNCTION 15 - OPTION D





Cyffordd 15 - Opsiwn D


Mae'r opsiwn hwn yn darparu symudiad pedair-ffordd drwy ddefnyddio trosbont gyda chyffordd-T tua'r gogledd o'r A55 a chyffordd â blaenoriaeth tua'r de o'r gylchfan gyfredol. Byddai'r slipffyrdd yn cael eu codi'n uwch yn lleol er mwyn i'r bont gael pasio dros yr A55. Byddai mynediad i'r Parêd drwy Shore Road East yn cael ei gadw. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ail-alinio Ffordd Penmaenmawr ac yn sgil hynny, ail-leoli'r safleoedd bws.

Junction 15 - Option D

This option provides four-way movement by utilising an overbridge with a T-junction to the north of the A55 and a priority junction to the south of the existing roundabout. The slip roads would be raised locally to allow the bridge to pass over the A55. Access to the Parade via Shore Road East would be retained. This option would require the realignment of Penmaenmawr Road and consequently the repositioning of the bus stops.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN E
A55 JUNCTION 15 - OPTION E





Cyffordd 15 - Opsiwn E

Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn D, o ran ei fod yn darparu symudiad pedair-ffordd drwy ddefnyddio trosbont gyda chyffordd-T tua'r gogledd o'r A55. Fodd bynnag, ar gyfer yr opsiwn hwn, byddai cylchfan fechan a slipffyrdd ar gyfer traffig yn teithio tua'r gorllewin yn cael eu lleoli ar safle adeilad yr Heath.

Byddai'r slipffyrdd yn cael eu codi'n uwch yn lleol er mwyn i'r bont basio dros yr A55. Yn sgil y cyfyngiadau uchder, efallai y bydd angen cyfyngu mynediad i'r Parêd ar hyd Shore Road East i Ddefnyddwyr di-Fodur yn unig.

Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ail-alinio Ffordd Penmaenmawr ac yn sgil hynny, ail-leoli'r safleoedd bws. Yn ogystal, bwriedir cael un llwybr seiclo/cerdded.


Junction 15 - Option E

This option is similar to Option D, in that it provides four-way movement by utilising an overbridge with a T-junction to the north of the A55. However, for this option a compact roundabout and slip roads for west-bound traffic would be located at the site of the Heath building.


The slip roads would be raised locally to allow the bridge to pass over the A55. Due to headroom restrictions, access to the Parade along Shore Road East may need to be limited to Non-Motorised Users.


This option would require the realignment of Penmaenmawr Road and consequently the repositioning of the bus stops. It is also proposed that there will be a shared cycleway / pedestrian path.

CYFFORDD 15 YR A55 - RHAGOLYGON LLIF TRAFFIG
A55 JUNCTION 15 - TRAFFIC FORECAST FLOWS



CYFFORDD 16 YR A55 - OPSIWN A
A55 JUNCTION 16 - OPTION A





Cyffordd 16 - Opsiwn A

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys cyffordd symudiad pedair-ffordd, gan ddisodli cyffordd 16A. Byddai'r gylchfan yng nghyffordd 16 yn cael ei dileu a byddai slipffyrdd i fynd ar yr A55 ac i'w gadael yn cael eu hadeiladu yn eu lle ar gyfer traffig tua'r gorllewin. Byddai trefniant cyffordd C16A yn cynnwys trosbont, wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan bresennol. Byddai'r slipffyrdd yn cael eu hadeiladu ar argloddiau uchel. Byddai ffordd gyswllt newydd yn cael ei hadeiladu, a byddai, yn fras, yn rhedeg yn baralel â'r A55, y tu ôl i'r Puffin Café a chysylltu'n ôl â Ffordd Ysguborwen ger Gwesty'r Gladstone.


Byddai darpariaeth yn cael ei gwneud i gadw'r Llwybr 5 SUSTRANS presennol, sy'n rhedeg yn baralel â gogledd yr A55.


Junction 16 - Option A

The option comprises of a four-way movement junction, replacing junction 16A. The roundabout at junction 16 would be removed and replaced by westbound on and off slip roads. The junction 16A arrangement would consist of an overbridge, located to the north-east of existing roundabout. The slip roads would be constructed on raised embankments. A new link road would be constructed, running roughly parallel to the A55, behind the Puffin Café linking back into Ysguborwen Road near the Gladstone Hotel.

Provision would be made to retain the existing SUSTRANS Route 5, which runs parallel to the north of the A55.

CYFFORDD 16 YR A55 - OPSIWN B
A55 JUNCTION 16 - OPTION B





Cyffordd 16 - Opsiwn B

Mae'r trefniant arfaethedig ar gyfer y gyffordd yn darparu symudiad pedair-ffordd. Hwylusir mynediad i gerbydlon ddwyreiniol yr A55 ac oddi arni drwy drosbont sydd wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan bresennol, gyda slipffyrdd yn cael eu hadeiladu ar argloddiau uchel. Byddai symudiadau i fynd ar gerbydlon orllewinol yr A55 ac oddi arni yn teithio ar hyd slipffyrdd fydd yn disodli'r gylchfan bresennol.

Bydd y llwybr 5 SUSTRANS presennol, sy'n rhedeg yn baralel â gogledd yr A55 yn cael ei gadw.


Junction 16 - Option B

The proposed junction arrangement provides four-way movement. Movement on and off the A55 eastbound carriageway is facilitated by an overbridge located to the north-east of the existing roundabout, with slip roads constructed on raised embankments. Movement on and off the A55 westbound carriageway would be via slip roads replacing the existing roundabout.

The existing SUSTRANS Route 5, which runs parallel to the north of the A55 will be retained.

CYFFORDD 16 YR A55 - OPSIWN C
A55 JUNCTION 16 - OPTION C





Cyffordd 16 - Opsiwn C

Byddai'r opsiwn hwn yn darparu cyffordd symudiad tair-ffordd. Byddai symudiadau i fynd ar gerbydlon orllewinol yr A55 ac oddi arni yn teithio ar hyd slipffyrdd wedi'u lleoli ar y gylchfan bresennol. Byddai traffig sy'n ymuno â'r A55 tua'r dwyrain yn pasio dan yr A55 drwy danbont. I hwyluso hyn, byddai angen codi'r A55 ar arglawdd sylweddol. Byddai angen i draffig sy'n teithio tua'r dwyrain, sy'n dymuno gadael yr A55, adael yr A55 yn gynharach yng nghyffordd 15A; gan arwain at gynnydd mewn traffig drwy Benmaenmawr.


Bydd y Llwybr 5 SUSTRANS presennol, sy'n rhedeg yn baralel â gogledd yr A55, yn cael ei gadw.


Junction 16 - Option C

This option would provide a three-way movement junction. Movement on and off the A55 westbound carriageway would be via slip roads located at the existing roundabout. Traffic joining the A55 in an eastbound direction would pass under the A55 via an underbridge. To facilitate this, the A55 would need to be raised on a substantial embankment. Traffic travelling in an eastbound direction, wishing to leave the A55 would need to leave the A55 earlier at junction 15A; resulting in increased traffic through Penmaenmawr.

The existing SUSTRANS Route 5, which runs parallel to the north of the A55 will be retained.

CYFFORDD 16 YR A55 - OPSIWN D
A55 JUNCTION 16 - OPTION D





Cyffordd 16 - Opsiwn D

Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn C o ran ei fod yn darparu symudiad tair-ffordd. Byddai symudiadau ar yr A55 ac oddi arni yn teithio ar hyd slipffyrdd wedi'u lleoli yn y gylchfan bresennol. Byddai traffig sy'n ymuno â'r A55 o gyfeiriad y dwyrain yn pasio dros drosbont. Byddai angen i draffig sy'n teithio tua'r dwyrain, sy'n dymuno gadael yr A55, adael yr A55 yn gynharach yng nghyffordd 15A; gan arwain at gynnydd mewn traffig drwy Benmaenmawr.

Bydd y Llwybr 5 SUSTRANS presennol, sy'n rhedeg yn baralel â gogledd yr A55, yn cael ei gadw.


Adolygwch y wybodaeth ar yr opsiynau ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 a rhannwch eich sylwadau â ni erbyn hanner nos 28 Awst 2018.

Junction 16 - Option D

This option is similar to Option C in that it provides three-way movement. Movement on and off the A55 westbound carriageway would be via slip roads located at the existing roundabout. Traffic joining the A55 in and eastbound direction would pass over an overbridge. Traffic travelling in an eastbound direction, wishing to leave the A55 would need to leave the A55 earlier at junction 15A; resulting in increased traffic through Penmaenmawr.

The existing SUSTRANS Route 5, which runs parallel to the north of the A55 will be retained.

CYFFORDD 16 YR A55 - RHAGOLYGON LLIF TRAFFIG
A55 JUNCTION 16 - TRAFFIC FORECAST FLOWS



CRYNODEB ARFARNU A THABL ECONOMAIDD CAM 2 WELTAG

WELTAG STAGE 2 APPRAISAL SUMMARY & ECONOMIC TABLE

Gwerthusiad Cam 2 WELTAG

Mae'r opsiynau ar gyfer Cyffyrdd 15 ac 16 wedi'u hasesu'n unol â chanllawiau WelTAG 2017 a'r Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth WelTAG diweddaraf ar gyfer y Broses Gwerthuso Trafnidiaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Trafnidiaeth.

Mae pob opsiwn wedi'i werthuso yn erbyn amcanion y prosiect ac amcanion technegol ychwanegol, yn ogystal â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ac economaidd. Mae arwyddocâd a graddfa'r effeithiau yn sgil pob opsiwn yn cael ei gyfrifo ar raddfa saith pwynt yn amrywio o effaith fuddiol fawr (+++) i effaith andwyol fawr (---). Mae deilliant y gwerthusiad economaidd, mewn perthynas â 'gwerth am arian' pob opsiwn, yn cael ei gyflwyno fel Cymhareb Budd Cost (BCR).

Wrth benderfynu p'un a fyddai'r opsiynau'n cael effaith fuddiol neu andwyol mewn perthynas â phob maen prawf, mae effaith niwtral wedi'i diffinio. Fel arfer ar gyfer yr effaith niwtral, tybir na fydd yr opsiwn yn newid y sefyllfa bresennol, gan ystyried effaith gyffredinol yr holl ffactorau a'r mesurau lliniaru posib.

I gefnogi'r gwerthusiad hwn, defnyddiwyd gwybodaeth o'r modelu traffig (a wnaed i ddeall y sefyllfa ar hyn o bryd ac yn y dyfodol), a gwaith a wnaed i asesu dichonolrwydd technegol yr opsiynau.

WELTAG Stage 2 Appraisal

The options for Junctions 15 and 16 have been assessed in accordance with the WelTAG 2017 guidance and the latest WebTAG Transport Analysis Guidance for the Transport Appraisal Process published by the Department of Transport.

Each of the options have been appraised against the project objectives and additional technical objectives, in addition to environmental, social and cultural, and economic criteria. The significance and scale of the impacts due to each option is presented using a seven-point scale ranging from a large beneficial (+++) impact to a large adverse (---) impact. The outcome of the economic appraisal, in relation to the 'value for money' that each option provides, is presented as a Benefit Cost Ratio (BCR).

When determining whether the options would have a beneficial or adverse impact in relation to each of the criteria, a neutral impact has been defined. Typically for the neutral impact, it has been assumed that the option will not result in a change from the current situation, taking into account the overall impact of all the factors and potential mitigation.

To support this appraisal, information from the traffic modelling (which has been undertaken to understand the current and future situation) and work that has been carried out to assess the technical feasibility of the options has been used.

Thabl Economaidd Cam 2 WelTAG / WelTAG Stage 2 Economic Table		Cyffordd 15 / Junction 15					Cyffordd 16 / Junction 16			
		Opsiwn A / Option A	Opsiwn B / Option B	Opsiwn C / Option C	Opsiwn D / Option D	Opsiwn E / Option E	Opsiwn A / Option A	Opsiwn B / Option B	Opsiwn C / Option C	Opsiwn D / Option D
COSTAU'R CYNLLUN A GWERTHUSIAD ECONOMAIDD (£ miloedd) / SCHEME COSTS & ECONOMIC APPRAISAL (£ thousands)	Costau Cyfalaf Gwerth Presennol, ac eithrio TAW (prisiau 2018) Present Value Capital Costs, Excluding VAT (at 2018 prices)	£17,042	£30,303	£26,504	£27,949	£27,171	£23,027	£18,328	£21,843	£18,893
	Buddion Gwerth Presennol (PVB) (wedi'u disgwntio i brisiau 2010) Present Value Benefits (PVB) (discounted to 2010 prices)	£579	£23,530	£12,635	£25,440	£23,096	£19,220	£22,357	£20,929	£21,079
	Costau Gwerth Presennol (PVC) (wedi'u disgwntio i brisiau 2010) Present Value Costs (PVC) (discounted to 2010 prices)	£12,287	£21,863	£18,999	£20,153	£19,533	£16,451	£13,107	£15,603	£13,508
	Gwerth Presennol Net (NPV) (wedi'i ddisgwntio i brisiau 2010) Net Present Value (NPV) (discounted to 2010 prices)	-£11,708	£1,667	-£6,364	£5,287	£3,563	£2,769	£9,250	£5,326	£7,571
	Cymhareb Cost Budd (BCR) Benefit Cost Ratio (BCR)	0.1	1.1	0.7	1.3	1.2	1.2	1.7	1.3	1.6

Gwerthusiad yn cael ei gymharu â senario Gwneud y Lleiaf Bosib (+++/---) / Appraisal compared with the Do Minimum Scenario (+++/---) Budd Mawr / Large Beneficial +++ Budd Cymedrol / Moderate Beneficial ++ Budd Bychan / Slight Beneficial + Niwtral / Neutral 0 Andwyol Bychan / Slight Adverse - Andwyol Cymedrol / Moderate Adverse -- Andwyol Mawr / Large Adverse ---			Cyffordd 15 / Junction 15					Cyffordd 16 / Junction 16			
			Opsiwn A / Option A	Opsiwn B / Option B	Opsiwn C / Option C	Opsiwn D / Option D	Opsiwn E / Option E	Opsiwn A / Option A	Opsiwn B / Option B	Opsiwn C / Option C	Opsiwn D / Option D
AMCANION Y PROSIECT / PROJECT OBJECTIVES		OBJ1 – Gwella mynediad i farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad i gyfleoedd gwaith OBJ1 – Improve access to regional, national and international markets and improve access to employment opportunities	++	++	++	++	++	++	++	++	++
		OBJ2 – Gwella diogelwch ffordd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A OBJ2 – Improve road safety on the A55 from Junction 14 to Junction 16A	+	+	+	+	+	+	+	+	+
		OBJ3 – Gwella amseroedd siwrne a dibynadwyedd amser siwrne ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A OBJ3 – Improve journey times and journey time reliability on the A55 from Junction 14 to Junction 16A	++	++	++	++	++	++	++	++	++
		OBJ4 – Gwella gwydnwch ar yr A55 i draffig strategol a lleol OBJ4 – Improve resilience on the A55 for strategic and local traffic	--	0	--	0	0	0	0	-	-
		OBJ5 – Gwella amseroedd siwrne, dibynadwyedd amseroedd siwrne a diogelwch ar gyfer mynediad ar yr A55 OBJ5 – Improve journey times, journey time reliability and safety for access onto the A55	-	++	-	+	+	+	++	0	0
		OBJ6 – Lleihau datgysylltiad ag ardaloedd arfordirol ar gyfer Defnyddwyr Di-fodur a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr OBJ6 – Reduce severance with coastal areas for the Non-Motorised Users and enhance provision made for walkers and cyclists	0	+	+	0	-	+	0	0	0
		OBJ7 – Cymryd camau rhesymol i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau OBJ7 – To take reasonable steps to build healthier communities and better environments	+	--	0	+	-	+	0	0	0
		OBJ8 – Cyfleoedd i ddarparu trafnidiaeth integredig yn cynyddu OBJ8 – Opportunities to provide integrated transport are increased	--	+	+	+	+	+	0	+	+
AMCANION TECHNEGOL YCHWANEGOL / ADDITIONAL TECHNICAL OBJECTIVES		Lleihau'r achosion technegol o fod yn groes i'r safonau Minimising technical departures from standards	+	+	---	0	0	--	-	---	--
		Lleihau'r angen i ostwng cyfyngiadau cyflymder Minimising need to reduce speed limits	0	0	-	0	0	0	0	-	-
		Lleihau'r aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu Minimising disruption during construction	-	--	---	--	--	--	-	--	--
EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL / ENVIRONMENTAL, SOCIAL AND CULTURAL IMPACTS	Effeithiau Cymdeithasol a Diwylliannol / Social and Cultural Impacts	Gweithgarwch Corfforol Physical Activity	0	+	0	0	0	+	0	0	0
		Ansawdd siwrne (Arbedion oedi pcu hrs – AMP, IP, PMP) Journey quality (Delay savings pcu.hrs - AMP, IP, PMP)	19, 8, 18	21, 12, 20	20, 9, 17	21, 11, 20	21, 11, 20	22, 11, 20	22, 11, 20	23, 12, 20	23, 12, 20
		Arbedion Damweiniau (Nifer y damweiniau) Accident Savings (No. accidents)	-41	18	-50	8	14	-32	10	-21	-21
		Diogelwch Personol Personal security	0	+	-	-	0	+	0	0	0
		Hygyrchedd i waith a gwasanaethau (Cynnydd yng nghyflymder siwrne cya – AMP, IP, PMP) Accessibility to employment and services (Journey speed increase kph - AMP, IP, PMP)	0, 1, 2	2, 2, 2	2, 1, 2	2, 2, 2	2, 2, 2	2, 1, 2	2, 2, 2	2, 2, 2	2, 2, 2
		Datgysylltiad Severance	-	+	-	0	-	0	0	0	0
		Athreiddedd (cerdded, beicio) Permeability (walking cycling)	0	+	+	0	0	+	0	0	0
		Cydraddoldeb, amrywiaeth a Hawliau Dynol Equality, diversity & Human Rights	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Effeithiau Amgylcheddol (wedi'u lliniaru) / Environment (mitigated)	Sŵn Noise	-	-	-	0	-	-	0	--	-
		Ansawdd Aer Air quality	0	0	0	0	0	0	0	0	0
		Nwyon Tŷ Gwydr Greenhouse gases	0	0	0	0	0	0	0	0	0
		Tirwedd a threfwedd Landscape and townscape	-	-	0	0	--	+	--	-	-
		Amgylchedd hanesyddol Historic environment	-	--	---	---	--	0	0	0	0
		Bioamrywiaeth Biodiversity	0	0	+	+	0	+	+	+	+
		Amgylchedd Dŵr Water environment	0	0	0	0	0	0	0	0	0

SUT ALLWCH CHI HELPU?
HOW YOU CAN HELP?

Hoffem glywed eich barn

Adolygwch y wybodaeth ar yr opsiynau ar gyfer ar gyfer un o'r cyfforddd yr A55 a rhannwch eich sylwadau â ni erbyn **hanner nos 28 Awst 2018**.

Gallwch gyflwyno eich barn i ni neu wneud ymholiad, drwy:

- Fynychu un o'r arddangosfeydd
- Dychwelyd yr holiadur mewn amlen rhagdaledig fydd ar gael yn yr arddangosfeydd
- Llenwi holiadur ar-lein y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru https://beta.llyw.cymru/gwelliannau-cyffyrdd-15-16-A55
- Cysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar 07806 737 353 neu drwy e-bost A55J15J16@ramboll.com
- Ysgrifennu atom neu anfon yr holiadur i'r cyfeiriad RHADBOST

Trafnidiaeth
RHADBOST
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Mynediad at Wybodaeth

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r holiaduron yn cael ei defnyddio i grisialu eich barn ynghylch yr opsiwn/opsiynau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer cynllun gwelliannau cyffyrdd 15 ac 16. Bydd unrhyw ddata neu farn a gesglir fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael eu cydgasglu, a phan gyflwynir adroddiad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddant yn cael eu crynhoi i sicrhau bod barn unigolion yn ddienw. Ymdrinnir â'r holl ddata personol yn unol â'n goblygiadau.

Beth nesaf?

Bydd eich ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn gymorth i hysbysu'r penderfyniad ynghylch datblygiad unrhyw gynlluniau gwella arfaethedig ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16 yr A55. Y cam nesaf yn y broses fydd datganiad ynghylch yr opsiynau sy'n cael eu ffafrio a hynny wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben yn ystod yr Haf 2018.

We would like to hear your views.

Please review the information on the options for each of the junctions on the A55 and let us know what your comments are by **midnight 28 August 2018**.

You can provide us with your views or make an enquiry, by:

- Attending one of the exhibitions
- Returning the questionnaire in a prepaid envelope which will be available at the exhibitions
- Filling in an online questionnaire which can be found on the Welsh Government website https://beta.gov.wales/a55-junctions-15-16-improvements-weltag-stage-2
- Contacting the Public Liaison officer on 07806 737 353 or by email A55J15J16@ramboll.com
- Writing or sending the questionnaire to the FREEPOST address


Transport
FREEPOST
Welsh Government
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy LL31 9RZ

Access to information

The information collected from the questionnaires will be used to capture your views regarding the preferred option(s) for the A55 junction 15 and 16 improvements scheme. Any data or opinions collected as part of the consultation will be aggregated, and where reported at the end of the consultation period will be summarised to ensure that individuals views remain anonymous. All personal data will be handled in accordance with our obligations.

What happens next?

Your responses will be considered carefully and will help inform the decision regarding the future development of any proposed improvement schemes for junctions 15 and 16 of the A55. The next step is that the preferred options will be announced following the consultation period in Summer 2018.



Gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16 yr A55
Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WelTAG Holiadur

Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur hwn. Mae eich barn yn bwysig i ni.

Edrychwch ar y wybodaeth ar yr opsiynau ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16 yr A55, a gadewch i ni wybod beth yw eich sylwadau erbyn **28 Awst 2018**. Gweler gwybodaeth ar yr opsiynau naill ai yn un o'r arddangosfeydd neu ar y wefan yn https://beta.llyw.cymru/gwelliannau-cyffyrdd-15-16-A55. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr opsiynau, bydd y tîm prosiect fydd yn bresennol yn yr arddangosfeydd yn hapus i'ch cynorthwyo. Yn ogystal, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar 07806 737 353 neu ar e-bost A55J15J16@ramboll.com.

Gellir dychwelyd yr holiadur mewn amlen rhagdaledig (ar gael yn lleoliadau'r arddangosfeydd), neu drwy anfon yr holiadur i'r cyfeiriad RHADBOST neu ar e-bost YmgynghoriadA55Cyffyrdd15ac16@llyw.cymru.

Gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 / Trafnidiaeth
RHADBOST
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Fel arall, gallwch lenwi holiadur ar-lein. Defnyddiwch y cyfeiriad gwefan uchod i ddod o hyd i'r holiadur ar-lein.

A55 Junctions 15 & 16 Improvements
WelTAG Stage 2 Public Consultation Questionnaire

Thank you for taking the time to complete this questionnaire. Your views are important to us.

Please review the information on the options for both A55 junctions 15 and 16, and let us know what your comments are by **28 August 2018**. Information on the options can either be viewed at the exhibition(s) or on the website https://beta.gov.wales/a55-junctions-15-16-improvements-weltag-stage-2 . If you have any queries on the options, the project team in attendance at the exhibitions will be happy to assist. You can also contact the Public Liaison officer on 07806 737 353 or by email A55J15J16@ramboll.com.

The questionnaire can be returned in a pre-paid envelope (available at exhibition venues), or by sending the questionnaire to the FREEPOST address or by email A55Junctions15and16Consultation@gov.wales.

A55 Junctions 15 and 16 Consultation / Transport
FREEPOST
Welsh Government
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy LL31 9RZ

Alternatively, you can fill in an online questionnaire which can be found at the website address above.

1. Beth yw eich cod post cartref? (*I'w ddefnyddio er dibenion mapio yn unig)

What is your home postcode? (* To be used for mapping purposes only)

2. Ticiwch i ddweud pa leoliad y bu i chi ymweld ag ef

Please tick the venue that you visited

Penmaenmawr ☐

Llanfairfechan ☐

Dwygyfylchi ☐

3. Os oes gennych sylwadau ynghylch deunydd yr arddangosfa ac/neu'r lleoliad, nodwch hwy yn y blwch isod.

If you have comments about the exhibition material and/or the venue, please provide them in the box below.

4. Pan fyddwch yn defnyddio'r A55 rhwng Madryn (Cyffordd 14) a Thwnnel Penmaenbach (Cyffordd 16A), i ble rydych yn teithio / dychwelyd ohono fel arfer?

When you use the A55 between Madryn (Junction 14) and Penmaenbach Tunnel (Junction 16A), where do you typically travel from and to?

5. Wrth deithio ar y siwrneiau hyn, pa ddull cludiant fyddwch chi'n ei ddefnyddio fel arfer, wrth deithio ar hyd yr A55 rhwng Madryn (Cyffordd 14) a Thwnnel Penmaenbach (Cyffordd 16A)? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

When making these journeys what modes of transport do you typically use, when travelling along length of the A55 between Madryn (Junction 14) and Penmaenbach Tunnel (Junction 16A)? (tick all that apply)

Gyrrwr car / Car driver ☐

Gyrrwr Fan/HGV / Van/HGV driver ☐

Teithiwr mewn car / Car passenger ☐

Bws / Bus ☐

Arall (nodwch os gwelwch yn dda) / Other (please specify) ☐

6. Fel arfer, pam fyddwch chi'n defnyddio'r A55 rhwng Madryn (Cyffordd 14) a Thwnnel Penmaenbach (Cyffordd 16A)?

What is the typical reason for using the A55 between Madryn (Junction 14) and Penmaenbach Tunnel (Junction 16A)?

Teithio i'r Gwaith / Travel to work ☐

Teithio am resymau busnes/masnachol / Travel for business/commercial reasons ☐

Teithio am addysg a hyfforddiant (e.e. Ysgol/Coleg/Prifysgol/Arall) ☐
Travel for education and training (e.g.School/ College/ University /Other)

Teithio am resymau twristiaeth ☐
(e.e. Gweithgareddau Hamdden/Gwyliau/Ymweld â Safleoedd Hanesyddol)
Travel for tourism
(e.g. Recreational Activities/Holidays/Visit Historic Sites)

Teithio i fynd i Siopa/ymweld â Theulu a Ffrindiau/ digwyddiadau Adloniant ☐
Travel to go Shopping/visit Family and Friends/ Entertainment events

7. Pan fyddwch yn teithio yn lleol, i ble rydych yn teithio / dychwelyd ohono fel arfer?

When you make local journeys where do you typically travel from and to?

Nodiadau / Note:

Er dibenion yr holiadur, yr **'ardal leol'** yw'r ardal yng nghyffiniau'r A55 rhwng Madryn (Cyffordd 14) a Thwnnel Penmaenbach (Cyffordd 16A), megis Penmaenmawr, Llanfairfechan a Dwygyfylchi. Mae'r siwrneiau'n cynnwys y rhai a wneir ar droed, beic a cheffyl, ynghyd â defnyddio cerbydau neu gludiant cyhoeddus.

For the purpose of the questionnaire, the **'local area'** is the area in the vicinity of the A55 between Madryn (Junction 14) and Penmaenbach Tunnel (Junction 16A), such as Penmaenmawr, Llanfairfechan and Dwygyfylchi. Journeys include those on foot, bike and horse, as well as using vehicles or public transport.

8. Pa gyffordd ydych chi'n ei defnyddio fwyaf aml?

Which junction do you use most frequently?

C14 / J14 ☐

C15 / J15 ☐

C15A / J15A ☐

C16 / J16 ☐

C16A / J16A ☐

9. A yw'ch siwrnai yn gofyn i chi groesi neu deithio ar hyd/ger yr A55 rhwng Cyffyrdd 14 ac 16A?

Does your journey require you to cross or travel along/near to the A55 between Junctions 14 and 16A?

Ydy / Yes ☐

Nac Ydy / No ☐

10. Fel arfer, pam fyddwch chi'n teithio ar y siwrneiau lleol hyn?

What is the typical reason for typically making these local journeys?

Teithio i'r Gwaith / Travel to work ☐

Teithio am resymau busnes/masnachol / Travel for business/commercial reasons ☐

Teithio am addysg a hyfforddiant (e.e. Ysgol/ Coleg/ Prifysgol/ Arall)
Travel for education and training (e.g. School/ College/ University/ Other) ☐

Teithio am resymau twristiaeth (e.e. Gweithgareddau Hamdden/Gwyliau/Ymweld â Safleoedd Hanesyddol)
Travel for tourism (e.g. Recreational Activities/Holidays/Visit Historic Sites) ☐

Teithio i fynd i Siopa/ymweld â Theulu a Ffrindiau/digwyddiadau Adloniant
Travel to go Shopping/visit Family and Friends/Entertainment events ☐

11. Pa faterion sy'n eich atal neu'n eich cymell i beidio â defnyddio mathau eraill o gludiant yn fwy aml (e.e. defnyddio llwybrau troed, lonydd beic, bysiau neu drenau) neu gyffyrdd eraill ar yr A55?

What are the issues that either prevent or dissuade you from using other types of transport more frequently (for example using footpaths, cycleways, buses or trains) or different A55 junctions?

12. Pa mor bwysig i chi yw cael gwared ar y cylchfannau, neu wneud gwelliannau i'r cyffyrdd, rhwng Madryn (Cyffordd 14) a Thwnnel Penmaenbach (Cyffordd 16A)?

How important is it to you that the roundabouts are removed, or junctions improved, between Madryn (Junction 14) and Penmaenbach Tunnel (Junction 16A)?

	Pwysig iawn / Very important	Pwysig / Important	Y naill na'r llall / Neither	Ddim yn bwysig / Unimportant	Ddim yn bwysig o gwbl / Very unimportant
Slipffordd C14 / J14 slip road	☐	☐	☐	☐	☐
Slipffordd C15A / J15A slip road	☐	☐	☐	☐	☐
C15 (Cylchfan yn Llanfairfechan) / J15 (Roundabout at Llanfairfechan)	☐	☐	☐	☐	☐
C16 (Cylchfan ym Penmaenmawr) / J16 (Roundabout at Penmaenmawr)	☐	☐	☐	☐	☐
Slipffordd C16A / J16A slip roads	☐	☐	☐	☐	☐

13. Pa opsiynau ydych chi'n eu ffafrio ar gyfer pob Cyffordd?
(Dewiswch un opsiwn i bob cyffordd)

Which are your preferred options for each junction?
(Please choose one per junction)

	Cyffordd 15 / Junction 15	Cyffordd 16 / Junction 16
Opsiwn A / Option A	☐	☐
Opsiwn B / Option B	☐	☐
Opsiwn C / Option C	☐	☐
Opsiwn D / Option D	☐	☐
Opsiwn E / Option E	☐	

14. Nodwch pam eich bod wedi dewis yr Opsiwn hwn ar gyfer Cyffordd 15.

Please give your reasons for your choice of Option for Junction 15.

15. Nodwch pam eich bod wedi dewis yr Opsiwn hwn ar gyfer Cyffordd 16.

Please give your reasons for your choice of Option for Junction 16.

16. Nodwch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r ymgynghoriad.

Please provide any other comments that you would like to make in relation to the consultation.

17. Unwaith eto, hoffem ddiolch i chi am eich cydweithrediad wrth gwblhau'r holiadur hwn.

We would like to thank you again for your cooperation in completing this questionnaire.

Enw / Name:

Sefydliad (os yn berthnasol) / Organisation (if applicable):

Cyfeiriad E-bost / Email address:

18. Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

Responses to consultations may be made public. To keep your response anonymous (including email addresses) tick the box.

Cadw fy ymateb yn ddienw / Keep my response anonymous ☐